TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Cyber College Computing Level 3




Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio'n benodol ar 'Seiberddiogelwch' o fewn y cwricwlwm cyfrifiadura. Byddwch yn datblygu cyfuniad o sgiliau technegol, busnes, rhyngbersonol a rheoli prosiect sydd eu hangen, nid yn unig yn y sector cyfrifiadura, ond ym mhob sector sy'n defnyddio technoleg mewn amgylchedd busnes cyfoes. Mae'r cwrs hwn wedi ei ddyfarnu gan Pearson, wedi ei ddatblygu ymhellach ac yn cael ei gynnig mewn cydweithrediad ag Admiral, Fujitsu a Thales.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Rydych eisiau cyfuniad o wybodaeth gyfrifiadurol a sgiliau ymarferol

... Yn frwd ynghylch gofynion technolegol newidiol y diwydiant

Rydych yn cael eich hysgogi gan anghenion diwydiant a chyflogwr ac yn barod am y gweithle

... Rydych eisiau cyfuno gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth fusnes

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...Rydych yn dymuno dilyn gyrfa neu astudiaethau pellach yn y byd Seiber neu ddiwydiannau digidol eraill

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r rhaglen wedi'i datblygu ar y cyd â chyflogwyr er mwyn datblygu eich sgiliau technegol o safbwynt diogelwch systemau, datblygu meddalwedd, rhwydweithio, dadansoddi a dylunio systemau.

Byddwch yn astudio unedau craidd yn eich blwyddyn gyntaf, ac yna'n symud ymlaen at y Ddiploma Estynedig yn eich ail flwyddyn. Byddwch yn astudio ystod eang o bynciau, allai gynnwys:

Blwyddyn 1:

Egwyddorion cyfrifiadureg (arholiad)
Hanfodion systemau cyfrifiadur (arholiad)
Diogelwch ac amgryptiad systemau TG
Cymwysiadau busnes cyfryngau cymdeithasol
Datblygiad gwefan
Datblygiad Apiau Symudol

Blwyddyn 2:

Cynllunio a rheoli prosiectau cyfrifiadura (asesiad)
Dylunio meddalwedd a phrosiect datblygu (asesiad)
Effaith cyfrifiadura
Rhyngweithio dynol a chyfrifiadurol
Rhwydweithio cyfrifiadurol
Rheoli a chefnogi systemau
Dadansoddi a Dylunio Systemau

Byddwch yn cael eich asesu drwy waith cwrs ac arholiadau, a byddwch yn cyflawni

Lefel 3 mewn Cyfrifiadura (Mae hyn yn gyfwerth â 3 phwnc Safon Uwch)
Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Mae hyn yn gyfwerth ag 1 pwnc Safon Uwch)
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau, yn cynnwys cyfleoedd i gyflawni cymhwyster Venda ychwanegol fel Comptia/ CISCO/ Haciwr Moesol Ardystiedig
Cysylltiadau gyda chyflogwyr a chyfweliad diamod gydag Admiral ar gyfer cyflogaeth ar ddiwedd eich cwrs

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Lleoliad gwaith perthnasol a diddorol

Yn ogystal, byddwch yn cwblhau'r Dystysgrif Her Uwch.

Ceir cyfle i deithio dramor ac ymgymryd â lleoliad gwaith drwy'r cynllun Erasmus plus.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol. Mae dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan gymhelliant yn nodweddion hanfodol yr ydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hunain.

Gall fod cyfnodau o gyfleoedd lleoliad gwaith yn codi ar ddyddiau astudio neu yn ystod y gwyliau.

Beth sy'n digwydd nesaf?

HND mewn Cyfrifiadura neu Radd Sylfaen mewn Diogelwch TG yn Coleg Gwent, neu ymgymryd ag astudiaethau gwahanol ar lefel brifysgol mewn pynciau fel e-fasnach, chwarae gemau, rheoli cronfeydd data a rheoli systemau gwybodaeth.
Cyflogaeth fel is-ddatblygwr neu dechnegwr cyfrifiadur ayyb
Prentisiaeth gyda chwmni TG neu Gyfrifiadura priodol
Cyrsiau prifysgol mewn cyfrifiadura, dylunio gemau cyfrifiadur a fforensig cyfrifiaduron